

## BA (Anrh) â€“ Darlunio ar gyfer Diwydiant (Atodol)



### Yn gwyno

Mae'r flwyddyn atodol arbenigol hon mewn BA (Anrh) Darlunio ar gyfer diwydiant yn cynnig cyfle i chi ganolbwyntio ar ddiffinio eich hun fel darlunydd proffesiynol o fewn y diwydiannau creadigol deinamig.

Bydd y flwyddyn olaf yn atgyfnerthu eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad darlunio presennol mewn paratoad ar gyfer eich gyrfa fel darlunydd cyfoes ac arloesol yn y dyfodol.

Mae BA (Anrh) Darlunio ar gyfer Diwydiant yn rhaglen o astudiaeth weledol arloesol sy'n berthnasol i'r diwydiant, gyda phwyslais ar ffurfiau traddodiadol a digidol o ymarfer darlunio a ffocws sy'n bennaf ar gyflogadwyedd. Nod y cwrs yw darparu'r cyfleoedd hanfodol i chi wneud y mwyaf o'ch cyflogadwyedd fel cyfathrebwr gweledol. Mae'r cwrs yn cynnwys naill ai un blwyddyn olaf llawn amser, neu ddwy flynedd rhan-amser o astudiaeth ar Gampws Crosskeys ac ar ôl hynny byddwch yn ennill cymhwyster BA (Anrh) lefel chwech.

Mae'r modiwlau'n cynnwys:

Dyfodol Darlunio  
Ffocws ar y Diwydiant

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cystadlaethau  
Archwilio Beirniadol  
Y Darlunydd fel Awdur

## Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych chi'n greadigol

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn Darlunio...

... Ydych chi o ddifrif am ddechrau gyrfa mewn Darlunio

## Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio creadigol unigol, mentora diwydiant, profiadau prosiect byw a lleoliadau gwaith. Mae'r cwrs yn rhaglen o astudiaeth weledol arloesol sy'n berthnasol i'r diwydiant, gyda phwyslais ar ffurfiau traddodiadol a digidol, gan gynnwys ffocws go iawn ar gyflogadwyedd. Bydd egwyddorion craidd lluniadu yn cael eu cymhwyso i farchnad darlunio gyfoes gynyddol a deinamig gyda ffocws ar ffurfiau traddodiadol a digidol o arferion darlunio. Bydd y cwrs yn canolbwyntio ar eich paratoi ar gyfer dechrau mewn diwydiant cyflym a chystadleuol, gan eich dysgu'r sgiliau hanfodol ar sut i farchnata eich hun, bod yn bresennol yn ddigidol ac yn yredig gan gynnwys.

Mae'r cwrs yn eich galluogi i ddatblygu eich creadigrwydd ymhellach yn y dosbarth a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Bydd y briffiau'n amrywio i gynnwys creu gwaith y bydd modd ei gyflwyno i gystadlaethau agored ar lefel broffesiynol a bydd hyn yn eich galluogi i ymgysylltu â chleientiaid go iawn. Yn ogystal â gweithgareddau rheolaidd yn y dosbarth, bydd siaradwyr gwadd a darlunwyr o safon diwydiant yn perfformio eu harbenigedd, yn cyfleu gwybodaeth berthnasol ar gynhyrchu gwaith o safon diwydiant ac yn cynnal adolygiadau portffolio. Cyflwynir addysgu ymarferol drwy gyfuniad o weithdai, darlithoedd a thiworialau, ynghyd ag ymweliadau ag orielau, arddangosfeydd, teithiau maes a thaith ryngwladol. Bydd y cwrs yn cyfuno technegau traddodiadol megis lluniadu a gwneud printiau gyda thechnegau darlunio digidol o'r radd flaenaf gan roi cyfle i chi ddatblygu eich portffolio yn unol â'ch gyrfa greadigol o ddewis.

## Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae'r radd atodol BA (Anrh) Darlunio ar gyfer y diwydiant yn eich galluogi i wella eich sgiliau



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

darlunio drwy gyfres o brosiectau ymarferol heriol. Bydd yr holl fodiwlau ymarferol yn datblygu eich sgiliau technegol ac yn darparu aseiniadau ysgogol i ddatblygu eich creadigrwydd a gwella'ch crefftwaith. Ar y cwrs byddwch yn astudio ac yn ymchwilio i ddarlunio ar gyfer diwydiant a byddwch yn datblygu sgiliau digidol a thraddodiadol o'r radd flaenaf gan ddefnyddio cyfleusterau pwrpasol megis stiwdios lluniadu, gweithdai printio a 3D a chyfleusterau mewn caledwedd a meddalwedd a fydd yn eich galluogi i ddelweddu gwaith mewn ystod o ffurfiau. Bydd meddalwedd a chaledwedd sy'n berthnasol i'r diwydiant ar gael ar y campws i'w harchwilio gan gynnwys Adobe Creative Suite, Procreate a rhaglenni creadigol eraill.

I gofrestru ar y cwrs hwn, bydd rhaid i ddysgwyr fod wedi cwblhau ail flwyddyn (lefel pump) y rhaglen gradd sylfaen/BA mewn darlunio (neu raglen gradd sylfaen/BA lefel pump berthnasol arall, megis celfyddyd gain), ac wedi cyflawni 120 credyd ar lefel pump.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cwrs atodol hwn yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i chi ar gyfer gyrfa mewn darlunio. Bydd astudio BA (Anrh) mewn darlunio ar gyfer diwydiant yn agor cyfleoedd ehangach mewn addysg a chyflogaeth.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Drwy gydol y rhaglen bydd rhaid i chi ddarparu deunyddiau arddangos fel llyfrau braslunio a phortffolios. Gellir gofyn i ymgeiswyr fynychu cyfweiliad, cymryd rhan mewn sesiwn gweithdy neu gyflwyno portffolio o waith fel rhan o'r broses ddethol. Mae'r cwrs hwn wedi'i ryddfrenio gan Brifysgol De Cymru.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

